EIS(5)-18-19(P1)

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@assembly.wales

17 Mehefin 2019

Annwyl Russell

Diolch am y cyfle i fynychu Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yng Nghymru ar ddydd Mercher 15 Mai 2019. Gweler y wybodaeth bellach y gwnaethoch chi ofyn amdani isod.

Mae Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel wedi darparu'r manylion canlynol ar y diddordeb mewn grantiau ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan yng Nghymru. Mae dau awdurdod yng Nghymru, Caerdydd a Sir Gaerfyrddin wedi gwneud cais i'r cynllun mannau gwefru ar strydoedd preswyl. Mae awdurdod lleol arall ar fin cyflwyno cais.

Mae'r gosodiadau canlynol wedi derbyn cyllid o dan y cynllun mannau gwefru yn y gweithle.

| **Ardal** | **Nifer y socedi a osodwyd** |
|---|---|
| Caerdydd | 19 |
| Llandudno | 15 |
| Casnewydd | 14 |
| Abertawe | 20 |

Rydym hefyd wedi gofyn am ddata ar y diddordeb mewn cyllid o dan y Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Gartref. Byddwn yn anfon y data hwn atoch chi pan fydd swyddogion wedi'i dderbyn.

Mae ein polisi cynllun cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru, bellach yn cynnwys polisi newydd i annog pobl i ddefnyddio Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVs), gyda gofyniad i o leiaf 10% o leoedd parcio amhreswyl fod â mannau gwefru ULEV. Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiadau amhreswyl i fynd i'r afael â phryderon pobl ynghylch peidio â gallu gwefru eu cerbyd pan fyddant yn defnyddio car trydan. Mae'r polisi'n ceisio helpu pobl i wefru ceir trydan pan fyddant yn y gwaith neu mewn cyrchfannau eraill megis siopau neu gyfleusterau hamdden. Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau preswyl gynnwys mannau gwefru, gan y gall perchnogion ceir trydan osod y rheiny eu hunain. Hefyd mae technoleg cludiant yn newid yn gyflym ac rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl nad yr hyn sy'n cael adeiladu heddiw fydd y datrysiad gorau ar gyfer y dyfodol. Mae'n debyg y bydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

technoleg seilwaith gwefru yn newid ac yn gwella gydag amser. Felly, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol ar waith i leihau costau gosod yn y dyfodol cymaint ag y bod modd.

O ran yr agwedd gynllunio ar fannau gwefru cerbydau trydan yng Nghymru, mae'n rhaid trosi diwygiadau diweddar i Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau erbyn gwanwyn 2020. Mae'r diwygiadau i'r Gyfarwyddeb yn amlinellu'r gofynion ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan ar gyfer rhai datblygiadau preswyl ac amhreswyl. Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu trosi'r gofynion hynny drwy ein pwerau Rheoleiddio Adeiladu datganoledig.

Daeth hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan i rym ar 1 Ebrill 2019. Bydd cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir yn hwyluso'r gwaith o osod rhwydwaith cenedlaethol o fannau gwefru cerbydau trydan mewn ardaloedd parcio cyhoeddus a phreifat.

Un o flaenoriaethau Bargen Twf y Gogledd yw'r prosiect datgarboneiddio trafnidiaeth rhanbarthol. Mae'r prosiect hwn yn alinio ag un o'u prosiectau â blaenoriaeth eraill sy'n canolbwyntio ar fynediad clyfar i ynni. Bydd y prosiect yn edrych ar dair ardal beilot yn y rhanbarth ac yn ystyried cyfleoedd i weithredu systemau trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel, gan gynnwys defnyddio cerbydau trydan. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid grant i awdurdodau Gogledd Cymru i gynnal gwaith ar ddichonoldeb. Gwelwch hefyd y ddolen i lythyr cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru.

https://llyw.cymru/llythyr-cylch-gwaith-dros-dro-trafnidiaeth-gymru-1-ebrill-2019-i-31-mawrth-2020

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport